

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.M. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, S. M. Hanks, W.A. Hennessy, M.J.G. Morgan a S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), D. Dutch, V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor Tenantiaid / Panel); Cynghorwyr E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

529 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd yr Is-Cadeirydd (yn y Gadair) y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

530 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd I. Buckley a G. Doyle (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel).

531 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

532 DATGANIADAU BUDDIANT –

Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

Gwnaeth y Cynghorydd J. Aviet ddatgan diddordeb yn Eitem 5 yr Agenda – Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Cychwynnol Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 a Chynigion 2023/24. Natur ei diddordeb oedd ei bod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn niweidiol yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Gwnaeth y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards ddatgan diddordeb yn Eitem Agenda 6 - y Strategaeth Tai Pobl Hŷn Drafft. Natur ei diddordeb oedd mai hi oedd yr Eiriolwr dros Bobl Hŷn Cyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn niweidiol yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(i)(C) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Gwnaeth y Cynghorydd W.A. Hennessy ddatgan diddordeb yn Eitem 5 yr Agenda – Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Cychwynnol Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 a Chynigion 2023/24. Natur ei ddiddordeb oedd ei fod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn niweidiol yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Hennessy yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

533 CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023-24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o Gabinet 17 Tachwedd, 2022 fel yr oedd yn yr agenda, gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai er mwyn ymgynghori â Chraffu ac i gynnig eu sylwadau neu argymhellion ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft (CCB). Y pwyntiau allweddol a godwyd oedd:

- Roedd y CCB yn gysylltiedig â Chynllun Corfforaethol y Cyngor a'i bedwar Amcan Lles (yn ogystal â'r Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol, a thrwy hynny ran o'r 'llinyn arian' oed yn dod â'r cynlluniau allweddol hyn at ei gilydd).
- Roedd gan y CCB chwe thema: Project Sero, Seilwaith, Trawsnewid, Gofal a Chymorth, Caledi a Chapasiti Cymunedol, yn ogystal â thri maes ffocws allweddol, sef yr Argyfwng Costau Byw, Prosiect Sero a Chadernid Sefydliadol. Un her allweddol i'r CCB oedd unrhyw gyfyngiadau cyllidebol yn deillio o'r setliad ariannol sydd ar fin digwydd gan Lywodraeth Cymru (LIC).
- Roedd y CCB hefyd yn manylu ar y camau gweithredu i gyflawni'r Amcanion Corfforaethol a Lles, yn amrywio o gydlynu ymateb sy'n cefnogi trigolion, busnesau, y trydydd sector a staff y cyngor gydag effaith yr argyfwng costau byw hyd at weithredu i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed rhag gweithgareddau benthyca arian anghyfreithlon.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Nododd y Cadeirydd a'r Pwyllgor y materion diweddar yn Lloegr ynghylch tai cymdeithasol, eu cynnal a chadw a'u cyflwr cyffredinol h.y. mynd i'r afael â thamprwydd, llwydni ac anwedd a'r awgrym bod hyn yn cael ei gynnwys fel cam gweithredu yn y CCB, gyda Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yn awgrymu y dylai hyn bwysleisio'r angen i sicrhau bod stoc tai'r Cyngor yn parhau i gyrraedd yr holl safonau perthnasol ar gyfer diogelwch ac adeiladu. Er bod nifer o eitemau yn yr adroddiad ynghylch sicrhau bod y stoc dai newydd o safon uchel doedd dim byd oedd yn ymwneud yn benodol â'r stoc bresennol, a byddai'r camau arfaethedig hyn yn helpu i fynd i'r afael â hynny.

- Yn sgil ymholiad y Cyngorydd Perkes ar effaith yr argyfwng costau byw ar gyflawni'r CCB, eglurwyd ei bod yn anodd asesu effaith o'r fath ar hyn o bryd, cyn setliad terfynol LIC, ond roedd y Cyngor yn ystyried gwahanol opsiynau a senarios posibl ynghylch yr effaith ariannol ar ddarpariaeth gwasanaethau, h.y. o ran arbedion ac effeithlonrwydd (fel caffael mwy effeithiol) yn ogystal ag edrych ar gynnydd posibl mewn taliadau am rai gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd angen i opsiynau o'r fath ystyried cynnal y ddarpariaeth gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed er mwyn i'r rhain gael eu gwarchod.
- Dywedodd yr Is-gadeirydd am y cam gweithredu o ran gwasanaeth cymorth craidd y Cyngor i ysgolion yn y CCB, a'r angen i godi ymwybyddiaeth gyda chyrrff llywodraethu ynghylch effeithiolrwydd y mae'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng ysgolion a chyrrff llywodraethol yn ei gynnig h.y. cynnig gwerth da am arian. Eglurwyd bod y Cyngor yn edrych i weithio'n agos gydag ysgolion i ddeall yr hyn oedd ei angen arnynt a pha wasanaethau ategol y gallai'r Cyngor eu darparu neu helpu gyda nhw, a thynnu sylw at y manteision, fel mwy o arbedion maint.
- Yn sgil cwestiwn yr Is-gadeirydd ar y cam gweithredu cyntaf yn amcan 3 y CCB drafft yn cynnwys cyfeiriad ychwanegol at dlodi tanwydd, gan gynnwys cyfeirio a chefnogaeth, byddai hyn yn cael ei gyfleu i'r swyddogion perthnasol i'w ystyried.
- Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu hefyd at yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu a sut y byddai'r CCB yn gweithredu yn yr hinsawdd economaidd anodd bresennol. Pwysleisiodd y pwysigrwydd roedd y Cyngor yn ei roi ar barhau i amddiffyn a chefnogi trigolion mwyaf agored i niwed y Fro. Anogodd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau etholedig eraill i gysylltu ag ef, yr Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid neu Ganolfan Gyswllt Un Fro ynghylch pryderon oedd yn cael eu codi gan denantiaid y Cyngor neu eraill ynghylch materion tai.
- O ran pryderon H. Smith (Gweithgor Tenantiaid/Cynrychiolydd Panel) ar lwydni sy'n ymddangos yng nghartrefi tenantiaid yn ei hardal yn dilyn gwaith a wnaed ar eu toi / insiweiddio, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu fod hyn bellach yn y broses o gael sylw gan y Tîm Asedau Tai (drwy ôl-osod awyru ychwanegol yn y to), a fyddai hefyd yn estyn allan at Gynrychiolydd y Tenantiaid i sicrhau bod hyn wedi'i gwblhau'n foddhaol.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried cyfeirnod ac adroddiad y Cabinet, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – BOD y camau ychwanegol a awgrymwyd gan y Pwyllgor yn cael eu rhannu gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i lywio diwygiadau i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol:

- Ar gyfer Amcan 3 - Cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned: 'Sicrhau bod stoc tai'r Cyngor yn parhau i gyrraedd yr holl safonau perthnasol o ran diogelwch ac adeiladu.'

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol gael gwybod am y camau ychwanegol a awgrymir i lywio diwygiadau i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol fel rhan o'r rhaglen ymgynghori.

534 CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI CYCHWYNNOL (CRT) CYLLIDEB
DDIWYGIEDIG 2022/23 A CHYNIGION 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o Gabinet 17 Tachwedd 2022 gan y Rheolwr Cymorth Cyllid, a nododd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 a'r cynnig ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor eu hystyried / cynnig sylwadau:

- Roedd balans y gronfa Cyfrif Refeniw Tai a ddygwyd ymlaen o 1 Ebrill 2022 yn uwch ar hyn o bryd na'r hyn oedd wedi'i gyllidebu oherwydd gwariant cyfalaf is yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Er mwyn dod â lefel y gronfa wrth gefn hon i lefel ddoethach, roedd cyllideb ddiwygiedig 2022/23 y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i chynyddu o ddiffyg o £11m i ychydig dros £16m, a ddaeth â'r balans wrth gefn yn ôl yn unol â'r lefel sydd ei angen yn y Cynllun Busnes Tai.
- O ran cynigion cychwynnol cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24, roedd hyn wedi symud o gyllideb ddiffygiol wreiddiol o £11.077m i warged o £26k, gan dybio gostyngiad o £12.7m yn y Cyfrif Refeniw Gwariant Cyfalaf. Roedd hyn yn golygu cyfraniad cyllideb o £5.7m gan adael balans disgwylidig yng nghronfa'r Cyfrif Refeniw Tai o £949k ym mis Mawrth 2024.
- Roedd yr heriau presennol i'r Gyllideb a'r Cynllun Busnes Tai yn ganlyniad i chwyddiant uchel a chostau cyflenwi, yr argyfwng costau byw, benthyca ychwanegol a chyfraddau llog uchel. Yn gysylltiedig â hyn roedd y cynnydd sylweddol mewn costau a ragwelwyd ar gyfer 2023/24, h.y. Ariannu Cyfalaf oherwydd benthyca ychwanegol, cynnydd mewn cyfraddau llog a chostau atgyweirio uwch.
- Ers cynhyrchu'r adroddiad, derbyniwyd yr hysbysiad polisi rhent gan LIC ac roedd yn cael ei ddadansoddi ar gyfer Cynllun Busnes Tai diwygiedig 2023/24. Modelwyd lefelau amrywiol o gynnydd mewn rhent i sicrhau hyfywedd parhaus y Cynllun Busnes Tai 30 mlynedd, a fyddai'n cael ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Cabinet ynghyd â chynigion cyllideb terfynol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24, er mwyn bodloni'r dyddiad cau statudol i hysbysu tenantiaid y cyngor o'r rhent a'r taliadau gwasanaeth newydd.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran cwestiwn y Cynghorydd Carroll ynglŷn â darparu ar gyfer chwyddiant cyffredinol o £136k yn yr adroddiad ac a oedd hyn yn ddigonol, yr esboniad a roddwyd oedd ma hyn oedd yn cael ei ragweld ar hyn o bryd ac felly roedd elfen o amcangyfrif yn rhan o'r broses, ond gellid diwygio hyn, pe bai cyngor yn cael ei roi i wneud hynny ar gyfer adroddiad cynigion cyllideb terfynol y Cyfrif Refeniw Tai. Byddai'r rhan fwyaf o effaith y pwysau o du chwyddiant yn disgyn ar waith cyfalaf y Cyngor yn hytrach na'r Cyfrif Refeniw Tai ei hun. O ran ymholiad arall y Cynghorydd yn ymwneud â'r £15k a wariwyd ar ymgynghorwyr, roedd hyn yn gysylltiedig yn bennaf â gweithredu'r system TGCh newydd ar gyfer Gwasanaethau Tai ac Adeiladu.
- Ar gais yr Is-gadeirydd am eglurhad am y ddarpariaeth ar gyfer lleihau'r gyllideb dyledion gwael ac amheus, y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, eglurwyd nad oedd y lefelau a ragwelwyd o ddyledion gwael o fewn y Cynllun Busnes Tai, yn

seiliedig ar y gwahanol newidiadau i'r system les, wedi'u gwireddu oherwydd, i raddau helaeth iawn, y gwaith a wnaed gan y Cyngor o ran adennill rhent a chymorth ariannol a chynhwysiant i denantiaid.

- Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu sylw hefyd at yr angen i edrych ar renti tenantiaid, gan gydbwyso'r angen i gynnal ac ehangu tai cymdeithasol ond hefyd i sicrhau nad oedd yr effaith i denantiaid yn rhy feichus, yn enwedig i'r rhai nad oedd yn derbyn unrhyw fudd-daliadau.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried cyfeirnod ac adroddiad y Cabinet, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi cyllideb ddiwygiedig y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2022/23.
- (2) Bod y cynnig cychwynnol ar gyfer cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24 yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

535 STRATEGAETH TAI POBL HÛN DDRAFFT (CFY) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o Gabinet 17 Tachwedd 2022 gan y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tai Cyhoeddus a gan gynrychiolwyr Housing LIN, a oedd wedi darparu cymorth ymgynghori wrth ddrafftio'r Strategaeth hon. Roedd hyn wedi'i gytuno mewn egwyddor gan y Cabinet ond roedd wedi cael ei gyfeirio at Graffu er mwyn ei ystyried.

Roedd y strategaeth wedi ei llunio er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i'r heriau tai oedd yn wynebu pobl hŷn yn benodol yn y Fro.

Rhoddodd y cynrychiolwyr o Housing LIN gyflwyniad byr i'r Pwyllgor, gan fanylu ar y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Strategaeth hon (h.y. adolygu arfer gorau, defnyddio grwpiau ffocws), ei 'gweledigaeth' a'i bwriadau (h.y. 'sicrhau'r ansawdd bywyd gorau i bobl hŷn, i fyw mor annibynnol â phosibl yn ddiweddarach yn eu bywyd'), sut y gellid cyflawni'r Strategaeth (h.y. naill ai'n cefnogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi neu eu galluogi i symud ymlaen i dai mwy addas ar gyfer eu hanghenion, yn ogystal â mwy o gyfranogiad cymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol), yn ogystal â'r camau gweithredu cysylltiedig sydd eu hangen (yn amrywio o adolygu/ymgyngori ar wasanaethau tai gwarchod y Cyngor, hyd at annog darparwyr tai preifat a chymdeithasol eraill i adeiladu llety mwy addas).

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran cwestiwn yr Is-gadeirydd ynghylch effaith dementia cynyddol yn y boblogaeth hŷn a sut y gellid cysoni hyn â nod y Strategaeth o bobl hŷn yn byw'n annibynnol, eglurwyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda chydweithwyr yn

y Gwasanaethau Oedolion i ddarparu strategaethau gofal er mwyn cefnogi'r strategaeth dai. Hefyd, roedd y Strategaeth yn ystyried cymorth tai ar wahanol gyfnodau o'u bywydau a'u galluogi lle bynnag y bo modd i aros o fewn eu bro a gerllaw eu rhwydweithiau cymorth.

- O ran cwestiynau dilynol yr Is-gadeirydd ynghylch y mecanwaith ar gyfer adolygu'r Strategaeth a chysylltu â phartneriaid ynghylch hyn a pha ymgysylltu a fu gydag adeiladwyr tai preifat o ran darparu tai fforddiadwy a hygyrch i bobl hŷn, eglurwyd bod y strategaeth wedi'i chysylltu â nifer o bartneriaid a gwasanaethau, h.y. y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) a phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, a oedd hefyd yn golygu cyllid ychwanegol ar gyfer gofal integredig. O ran adeiladwyr tai preifat, roedd trafodaethau eisoes wedi dechrau gyda nhw ynglŷn ag addasrwydd safleoedd tai, gyda'r Strategaeth yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllunio i helpu i lywio'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA), Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) ac adeiladwyr preifat ar y tai mwyaf priodol ar gyfer person hŷn a'r 'cyfuniad' mwyaf addas o ran mathau o lety.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Hanks ynghylch pentref gofal / ymddeol Penarth, eglurwyd bod hyn wedi ei gymeradwyo'n ddiweddar gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Chymdeithas Tai Wales & West i symud y prosiect yn ei flaen. Byddai diweddariadau pellach yn dod i'r Pwyllgor maes o law. Ar y llety / unedau 'cam-i-lawr' yn y Bont-faen (sy'n cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal 'blocio gwely' mewn ysbytai trwy roi modd i gleifion adael yr ysbyty'n ddiogel), roedd dau o'r rhain, gydag uchafswm hyd aros o ddeuddeg wythnos. Roedd y niferoedd oedd yn manteisio ar y ddarpariaeth yn gymharol isel, yn rhannol oherwydd eu bod yn ddewisol ar gyfer pobl hŷn oedd yn gadael yr ysbyty, ac roedd y Cyngor yn ystyries sut i gynyddu eu defnydd yn fwy effeithiol, fel roedd wedi digwydd gydag unedau tebyg ym Mhenarth.
- Holodd y Cynghorydd Perkes beth oedd y broses i weithredu'r Strategaeth a pha gynllunio oedd ar waith i sicrhau bod yr seilwaith angenrheidiol ar waith i gefnogi pobl hŷn a phoblogaeth gynyddol hŷn y Fro o ran eu dewisiadau tai. Eglurwyd bod gan y Strategaeth Gynllun Gweithredu wedi ei atodi ati er mwyn nodi'r amserlenni ac ati, o ran ei gweithredu, ond roedd hyn yn dal yn y broses o gael ei gwblhau, gyda rhai dyddiadau a therfynau amser yn anodd eu rhagweld, h.y. roedd adeiladu mwy o dai cymdeithasol, yn benodol at anghenion person hŷn, yn dibynnu ar gyllid yn y dyfodol a'r angen i flaenoriaethu ystod o anghenion croes i gartrefu gwahanol grwpiau.
- O ran cwestiwn dilynol y Cynghorydd am allu teuluoedd i adeiladu neu drosi llety ar gyfer perthnasau hŷn o fewn eu cartrefi neu ar dir gerllaw, eglurwyd bod rhai cyfyngiadau cynllunio wedi'u dileu er mwyn helpu i alluogi hyn lle bynnag y bo modd, gyda newidiadau pellach angen cael eu bwydo'n ôl i LIC a'r adolygiad ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).
- Anogodd y Cynghorydd Morgan y Pwyllgor i gefnogi'r adroddiad hwn a'r angen i ystyried cynllunio a meysydd polisi eraill (drwy lobio LIC) i sicrhau y gallai pobl hŷn o fewn y Fro aros o fewn eu cymunedau lleol h.y. er mwyn cael rhagdybiaeth y gallai pobl hŷn geisio adeiladu annedd un person o faint bach yn eu gardd neu dar eu tiroedd. Byddai hyn hefyd o fudd i'w cymunedau a'u busnesau lleol (h.y. cyfraniad sylweddol pobl hŷn at waith gwirfoddol yn eu bröydd) a dileu'r 'ffactor ofn' i bobl hŷn o ran eu hanghenion tai yn y dyfodol.

- Pwysleisiodd yr Is-gadeirydd bwysigrwydd ymgynghori â phob cenedlaeth o blith trigolion y Fro ynghylch y Strategaeth hon, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben yn y blynyddoedd nesaf, trwy ystyried eu dyheadau.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Hennessy ar y system galwadau brys newydd yn y cartref ar gyfer preswylwyr hŷn, eglurwyd bod nifer tenantiaid y Cyngor oedd yn dewis y system yn parhau'n uchel ac roedd ganddynt hawl o hyd i ddewis y system Teleofal newydd neu beidio.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Carroll ynghylch Pentref Gofal/Ymddeol Penarth, esboniwyd nad oedd yn hollol gywir i'w ddisgrifio fel 'pentref ymddeol' ond yn hytrach roedd yn golygu darparu llety pwrpasol i bobl hŷn y fro benodol, yn cyfuno cynllun tai gwarchod a chartref gofal preswyl presennol, yn seiliedig ar ddaliadaeth fforddiadwy. Doedd dim bwriad ar hyn o bryd y byddai'r llety gofal ychwanegol yn cynnwys unedau 'ar werth'.
- Cymeradwyodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu y Strategaeth fel ffordd gynaliadwy o gartrefu pobl hŷn yn eu bröydd ac o fewn eu rhwydweithiau cymorth, yn ogystal â mynd i'r afael â phoblogaeth sy'n heneiddio a'r anghenion ychwanegol y byddai hyn yn eu cyflwyno i ofal cymdeithasol ac iechyd. Fodd bynnag, byddai angen i'r Cyngor reoli disgwyliadau preswylwyr a thenantiaid o ran tai o'r fath a chymorth cysylltiedig oherwydd cyfyngiadau cyllidebol cynyddol.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried cyfeirnod ac adroddiad y Cabinet, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – BOD y farn ganlynol o'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel yn cael ei hystyried gan y Cabinet cyn i'r Strategaeth derfynol gael ei chytuno, sef:

- Pwysigrwydd y Strategaeth i ystyried effaith dementia ar roi tai i bobl hŷn a'r anghenion cymhleth a'r gefnogaeth sy'n gysylltiedig â hyn yn ogystal ag effeithiau poblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio ym Mro Morgannwg.
- Pwysigrwydd cadw'r Strategaeth dan adolygiad a monitro cyson, gyda'r angen i gysylltu hefyd â sefydliadau perthnasol eraill (megis cyrff Iechyd Cyhoeddus, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac adeiladwyr a datblygwyr tai preifat) ynglŷn â chefnogaeth, argaeledd, fforddiadwyedd a hygyrchedd i gartrefi priodol ar gyfer pobl hŷn.
- Pwysigrwydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu i osod y broses ar gyfer gweithredu'r Strategaeth a chynllunio ar gyfer yr isadeiledd sydd ei angen i gartrefu a chefnogi personau hŷn, h.y. i gefnogi personau hŷn i fyw yn eu cartrefi presennol.
- I'r Cyngor, fel rhan o'r Strategaeth, i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn adolygu eu polisiau cynllunio i ganiatáu datblygiad llety pobl hŷn o fewn y cymunedau maent yn byw ynddynt eisoes, ac yn agos at, neu o fewn tiroedd eu llety presennol.
- Mae'r Cyngor am ymgysylltu â'r holl grwpiau oedran o amgylch y Strategaeth hon er mwyn cyfrif am ddyheadau cenedlaethau'r dyfodol, ei fod yn addas i'r diben ac i symleiddio neu gael gwared ar 'elfen ofn' yr hyn y mae cartrefu person hŷn yn ei olygu wrth symud ymlaen.

Rheswm dros yr argymhelliad

Sicrhau bod y Cabinet yn gwneud penderfyniad gwybodus ar y Strategaeth derfynol.

536 ADRODDIAD CANOL TYMOR DIOGELU CORFFORAETHOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o Gabinet 17 Tachwedd 2022 gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu, a amlinellodd y gwaith a wnaed i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer amddiffyn a diogelu plant ac oedolion. Roedd hyn yn parhau'n gyfrifoldeb corfforaethol allweddol i'r Cyngor. Roedd y cyfeiriad/adroddiad atodedig yn ymwneud â'r:

- Adolygiadau cenedlaethol a lleol a gynhaliwyd a fyddai'n newid arferion diogelu'r Cyngor.
- Roedd y Grŵp Diogelu Corfforaethol, sy'n cwrdd bob chwarter ac y mae ei gynrychiolwyr o bob rhan o'r Cyngor yn rhannu meysydd blaenoriaeth a themâu sy'n dod i'r amlwg ar lefel strategol, ac yn cynhyrchu adroddiadau ac adolygiadau cysylltiedig h.y. ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, adroddiad data diogelu ac adroddiad 'dangosfwrdd' i ganolbwyntio ar feysydd a oedd angen mwy o arolygiaeth.
- Roedd diweddariad wedi bod i dudalen we Diogelu Corfforaethol y Cyngor.
- Roedd Polisi Diogelu drafft wedi'i ddiweddarau wedi ei lunio (i'w gyfeirio at y Cabinet a Chraffu maes o law) yn berthnasol i holl weithwyr, gwirfoddolwyr a chontractwyr yr Awdurdod Lleol.
- Roedd diweddariad hefyd i'r Polisi Recriwtio Diogel yn ystod 2022, ac roedd adroddiadau Chwarter 2 wedi dangos cydymffurfiaeth 100% ymhlith cyfarwyddiaethau corfforaethol ac ysgolion.
- Lle nad oedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer staff newydd y Cyngor neu ysgolion, rhoddwyd cynllun asesu risg perthnasol ar waith hyd nes y gellid darparu'r gwiriadau GDG.
- Lansio'r Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried cyfeirnod ac adroddiad y Cabinet, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – NODI cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad canol blwyddyn Diogelu Corfforaethol ar y gwaith a wnaed i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.

537 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI Blynnyddol :PERFFORMIAD CHWARTER 2 2022/23 (CAT) –

Nododd yr adroddiad perfformiad a gyflwynwyd gan Bennaeth yr Amgylchedd a Thai yn olrhain cynnydd y Cyngor yn Chwarter 2 (Ch2) (1 Ebrill i 30 Medi, 2021) tuag at gyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol (CCB) (2022/23) gan gyd-fynd â'r

Amcanion Llesiant yn y Cynllun Corfforaethol. Ar y cyfan, statws y Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) oedd 'Gwyrdd' o ran dangosyddion perfformiad, camau gweithredu ac amcanion.

Amlinellwyd Atodiad A , oedd yn nodi'r meysydd perfformiad o fewn cylch gwaith y Pwyllgor gan gynnwys y cyflawniadau a wnaed gan y Cyngor o dan ei bedwar Amcan Lles ar gyfer Ch2, yn amrywio o Amcan 1, ('Gweithio gyda'n cymunedau ac ar gyfer ein cymunedau'), h.y. y gwaith a wnaed ar ddefnyddio'r data o'r ymarfer Proffilio Tenantiaid i wella a thargedu gwasanaethau, drwodd i Amcan 4 ('Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd'), h.y. ehangu a phoblogrwydd Pod Bwyd Penarth. Cyfeiriwyd hefyd at feysydd ar gyfer ffocws a gwella yn y dyfodol, yn amrywio o Amcan Lles 1 (h.y. mynd i'r afael â'r nifer sylweddol o aelwydydd sy'n parhau mewn llety dros dro) hyd at Amcan 3 (parhau i ddarparu cyngor a chymorth i ddinasyddion yn sgil yr argyfwng costau byw).

Roedd eithriadau perfformiad yn cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu (Atodiad B) bellach yn tynnu sylw at statws presennol coch camau gweithredu / dangosyddion perfformio a nodwyd yn y chwarter blaenorol i ddangos cyfeiriad teithio, gyda chamau adfer arfaethedig a gynhaliwyd i symud y rhain yn eu blaen, h.y. ar gyfer y dangosydd perfformiad 'Canran o aelwydydd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref', amlinellwyd yr heriau a'r galw digynsail o amgylch hyn, yn ogystal â'r mesurau i geisio lleddfu hyn, h.y. datblygiad y Cynllun Ailgartrefu Cyflym.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Hennessy ar statws y personau hynny sy'n cael eu cartrefu mewn gwesty / llety gwely a brechwast yn y dyfodol, wedi i gyllid LIC ar gyfer y math hwn o lety ddod i ben, eglurwyd y byddai hyn yn ystyriaeth allweddol yng Nghyllideb y Cyngor y flwyddyn nesaf. Gellid talu rhai o'r costau hyn drwy gronfeydd wrth gefn y Cyngor ond byddai hyn yn bwysau newydd ar y Cyngor, gyda'r angen i barhau i ddefnyddio llety o'r fath am y dyfodol rhagweladwy.
- O ran cwestiwn dilynol y Cynghorydd am adeiladu a defnyddio llety dros dro 'modiwlaid' ar safleoedd eraill sy'n eiddo i'r Cyngor o fewn y Fro, eglurwyd bod cyllid wedi'i ddarparu ar gyfer Awdurdodau Lleol a chymdeithas tai partner i edrych ar sicrhau mwy o lety yn gyflym iawn. Un o'r meysydd roedd y Cyngor yn ei ystyried oedd defnyddio trioedd roedd eisoes yn berchen arnynt, a elwir yn 'safleoedd yn y cyfamser'. Roedd hyn ochr yn ochr â'r rhaglen ddatblygu barhaus gan y Cyngor ar gyfer tai mwy parhaol mewn gwahanol safleoedd yn y Fro megis yn y Barri (hen Glwb Llafur y Sea View a Gwesty'r Castle) a thynnu ar grant cyfalaf LIC.
- Roedd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor hefyd am drosglwyddo eu diolch am y gwaith mawr a'r ymdrechion a wnaed gan y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blyneddol 2021/22, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.